# Ymrwymiad Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

## Newid i economi sero net

#CymruSeroNet
#NetZeroWales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trwy Gytundeb Paris 2015 cytunodd **195 o wledydd i gyfyngu tymereddau cyfartalog byd-eang i ymhell islaw** **2°c** gyda'r nod o'i gyfyngu i **1.5°c**

Mae Cymru wedi cryfhau ei fframwaith deddfwriaethol i ollwng llai o nwyon tŷ gwydr trwy **Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**.

Cafodd y Ddeddf ei ddiweddaru ym Mawrth 2021 **er mwyn gosod targed sero net erbyn 2050.**

Mae'r Ddeddf yn gofyn am system **o gyllidebau carbon 5 mlynyddol a thargedau interim**. Cerrig camu yw'r rhain i sicrhau bod gwelliant cyson i daro'r targed tymor hir.

Gosodwyd targedau interim ynghylch allyriadau ar gyfer **2020, 2030 a 2040**.

Gosodwyd **y gyllideb garbon gyntaf o 2016–20** a bydd cyllidebau dilynol yn rhedeg tan **2050**. CO2

**Caiff y cyllidebau eraill eu gosod o leiaf 5 mlynedd cyn eu dechrau.**

## Targedau

| | |
|---|---|
| **2020** Targed interim | 27% |
| **2030** Targed interim | 63% |
| **2040** Targed interim | 89% |
| **2050** | 100% (sero net) |

## Cyllideb Carbon

| Cyfnod | Gostyngiad |
|---|---|
| 2016–20 | 23% (gostyngiad cyfartalog) |
| 2021–25 | 37% (gostyngiad cyfartalog) |
| 2026–30 | 58% (gostyngiad cyfartalog) |
| 2031–35 | |
| 2036–40 | |
| 2041–46 | |
| 2046–50 | |

Mae cyllidebau carbon yn fodd i roi sicrwydd economaidd tymor hir trwy **annog buddsoddi** ac **ysgogi twf gwyrdd**.
Mae gan bob sector yng Nghymru rôl i'w chwarae o ran **lleihau allyriadau a newid i economi sero net**.



Mae'n hanfodol ein bod yn newid i gymdeithas sero net i **wella lles cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru** ac i gyflawni ag ymrwymiadau rhyngwladol.




Mae Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am **adrodd ar gynnydd ar gyfer eu portffolios**.

OGL WG42155 © Hawlfraint y Goron Llywodraeth Cymru 2021